**Rhybudd o Ymestyn Gorchymyn Gwahardd Cerddwyr Dros Dro**
**Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 – Adran 14**
**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Llwybr Cyhoeddus Rhif 8 yng Nghymuned Higher Kinnerton) (Gwahardd Cerddwyr Dros Dro) 2020**

Daeth y Gorchymyn uchod i rym ar 26 Hydref 2020 am gyfnod o 6 mis, hyd at, ac yn cynnwys, 25 Ebrill 2021. Ers hynny, mae'r Gorchymyn wedi'i ymestyn gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, hyd at, ac yn cynnwys, 25 Hydref 2023.

Rhoddir rhybudd drwy hyn fod y Gorchymyn uchod a wnaed gan Gyngor Sir y Fflint ar 21 Hydref 2020 wedi'i ymestyn gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, hyd at, ac yn cynnwys, 25 Ebrill 2024, neu hyd y bydd y gwaith wedi'i gwblhau – pa bynnag un sydd gyntaf.


Effaith y Gorchymyn yw na chaiff unrhyw un barhau i ddefnyddio'r rhan honno o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 8 yng Nghymuned Higher Kinnerton o'i gyffordd â Lower Mountain Road, Pen y Ffordd, yn NGR 33104 36227 at ei gyffordd â Hulleys Close, Pen y Ffordd yn NGR 33067 36239.

Mae'n rhaid i'r llwybr barhau i fod ar gau am resymau Iechyd a Diogelwch yn ystod gwaith datblygu er mwyn atal perygl i'r cyhoedd. Mae'r datblygwr wedi darparu llwybr arall sy'n cydredeg â'r llwybr sydd ar gau uchod ac eithrio'r rhan o'r llwybr a nodir isod, a fydd yn parhau i fod ar gau oherwydd y gwaith:

Y rhan honno o Lwybr Cyhoeddus Rhif 8 yng Nghymuned Higher Kinnerton o'i gyffordd â Lower Mountain Road, Pen y Ffordd, yn NGR 33104 36227 hyd at ei gyffordd â Rhodfa Gladstone, rhan o ystâd newydd Redrow, Pen y Ffordd, yn NGR 33079 36237.

Nid oes llwybr arall ar gael.

Dyddiad 3 Tachwedd 2023



Gareth Owens
Prif Swyddog (Llywodraethu)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint
AB/FCC031874